
# Jacob



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yn y wers yma byddwn yn dysgu am Jacob o Genesis 25 – 28. Byddwn yn dysgu bod Duw yn perffeithio ei gynlluniau perffaith trwy bobl amherffaith.

Prif Bwyntiau:

- Mae Duw yn ein maddau
- Dylwn ddelio gydag eraill fel yr hoffwn iddynt ddelio gyda ni.
- Gall Dduw atgyweirio ein perthnasoedd.

Video playlist

## Canllaw y wers

Gadewch i'ch plentyn wisgo fyny yn ei hoff wisg ac esgus bod yn rhywun arall, (tywysoges, dyn tân, ayb) cymerwch amser i chwarae dychmygu. Gallwch hyd yn oed cael chwarae dychymyg heb wisgoedd. Mae dychymyg eich plentyn yn ddigon cryf.

Eglurwch er ei bod yn hwyl i ni chwarae ac esgus bod yn rhywun arall, heddiw rydym yn mynd i ddysgu am rywun oedd yn esgus bod yn rhywun arall er mwyn ei dwyllo.

Atgoffwch eich plentyn am linell amser y Beibl hyd yn hyn. Roedd Abraham a Sara yn rhieni i Isaac. Cafodd Isaac a Rebeca efeilliaid, Esau a Jacob. Darluniwch hwn ar bapur a'i gymharu â'ch teulu chi.

Cuddiwch eitem mewn cas glustog a gofynnwch i'ch plentyn ddyfalu beth sydd tu mewn trwy ei deimlo. Cymerwch dro am deimlo gwahanol eitemau yn y glustog. Nesaf, mygydwch un plentyn a'i gael i ddyfalu person arall trwy deimlo ei wyneb. Gallwch hefyd eu cael i deimlo gwynebau teganau meddal.

Rhannwch sut twyllodd Jacob ei dad trwy esgus bod yn Esau, ei frawd mawr. Gofynnwch I'ch plentyn os oedd yn iawn I Jacob dwyllo ei frawd a dweud celwydd wrth ei dad. Dysgwch Luc 6:31. Eglurwch fod ni'n cael ein brifo pan mae pobl yn gwneud pethau drwg i ni ac felly dylen ni ddim gwneud pethau drwg i eraill. Eglurwch fel mae Duw yn dweud dylen ni ddim dweud celwydd.

Siaradwch am er ein bod yn gwneud pethau drwg weithiau, mae Duw dal eisiau maddau i ni ac mae ganddo gynllun i ni. Rhedodd Jacob I ffwrdd, ond roedd Duw dal gyda Jacob. Casglwch wahanol eitemau i'w defnyddio fel clustog. Tegan, esgid, bag siopa, craig ayb. Dodwch nhw mewn lefelau cysur. Siaradwch am fel oedd yn rhedeg i ffwrdd, cysgodd Jacob tu allan a defnyddiodd carreg fel clustog. Pan roedd e mewn lle anghysurus, siaradodd Duw gyda Jacob mewn breuddwyd. Beth yw rhai o'r sefyllfaoedd anghysurus rydym wedi wynebu? Rhannwch fel newidiodd Duw enw Jacob yn nes ymlaen i Israel. Dangoswch Israel ar fap ac eglurwch fel mae or….or…..or…..wyrion Jacob yna tan heddiw.

Mae llawer o wersi eraill pwysig a digwyddiadau o fywyd Jacob. Ond byddai ceisio delio a nhw i gyd mewn un wers yn rhy gymhleth. Defnyddiwch eich doethineb eich hun i benderfynu faint o'r stori i wneud neu sut i ledu'r stori dros yr wythnos.

© 2022 truewaykids.com



Priododd Jacob Rachel a chafodd llawer o blant; 12 bachgen ac 1 merch.
Blynyddoedd yn ddiweddarach, roedd Jacob eisiau mynd yn ôl i'w dref enedigol.
Ar y ffordd yn ôl newidiodd Duw Jacob. Newidiodd Duw enw Jacob i Israel.
Pan gyrhaeddodd ei dre wreiddiol, roedd wedi cwrdd â'i frawd Esau. Doedd Esau ddim yn flin gyda Jacob mwyach.







Cafodd Isaac a Rebeca ddau fab. Esau a Jacob. Efeilliaid oeddynt. Fe dyfon nhw gyda'i gilydd tu mewn i stumog eu mam.

Wrth iddynt dyfu i fyny roedd yr efeilliaid yn wahanol iawn.

Roedd Esau yn mwynhau bod tu allan a hela,  gwell gan Jacob fod tu mewn. Hoffai Esau dreulio amser gyda'i dad, a hoffai Jacob treulio amser gyda'i fam.



Pan oedd Isaac yn hen, roedd eisiau Esau cymryd drosodd.

Ond roedd Jacob eisiau'r fendith felly daeth i fyny gyda chynllun.


Twyllodd ei frawd i gyfnewid ei fendith am bowlen o gawl.

Wedyn, cogiodd Jacob ei fod yn Esau, fel bod Isaac yn ei fendithio.

Roedd Esau yn flin iawn.

Roedd yn rhaid i Jacob redeg i ffwrdd.





Gwnaeth Jacob gwrdd â merch o'r enw Rachel a chwympo mewn cariad yn syth.

Ar ddydd y briodas , chwaraeodd tad Rachel dric ar Jacob.

Roedd gan Rachel chwaer o'r enw Leah,  a gyda llen dros ei hwyneb edrychai'r ddwy 'run fath. Cafodd Jacob ei dwyllo i briodi'r ferch anghywir!

Roedd Jacob yn drist. Ond addawodd gweithio'n galed i briodi Rachel.

# Chwaraeon a gweithgareddau

## Disgrifiwch y bobl



Edrychwch ar rai lluniau o lyfr neu gylchgrawn. Mae rhai nes ymlaen yn y wers, hefyd. Gofynnwch I'ch plentyn ddisgrifio ei hun. Ar y llaw arall, gallwch ddisgrifio person, wedyn mae'n rhaid i'ch plentyn ddyfalu pwy yw'r person yna. e.e., pwy sy'n cael gwallt tywyll?

Eglurwch sut, hyd yn oed os oedd Esau a Jacob yn efeilliaid, roeddynt yn edrych ac yn ymddwyn yn wahanol.





## Chwarae dychymyg – pwy ydw i?

Cymerwch dro gyda'ch plentyn i esgus bod yn wahanol bobl, anifeiliaid neu bethau. Gallwch gymryd llythyren allan o focs ac esgus bod yn rhywbeth sy'n dechrau gyda'r llythyren yna. E.e.. R – robot, C - cath, neu A – Athrawes.

Dylai'r person arall ddyfalu pwy maent yn esgus bod.

Canolbwyntiwch ar beth mae'n feddwl i esgus bod yn rhywun neu rywbeth arall.

## Cawl natur

Yn aml y gweithgareddau symlaf yw'r rhai gorau. Rhowch gynhwysydd ac ychydig o ddŵr i'ch plentyn a'u hanfon tu allan i wneud cawliau natur. **Gwnewch yn siŵr eu bod yn deall DDIM i'w fwyta.**

Siaradwch am yr holl liwiau prydferth, gweadau a siapiau. Dywedwch wrth eich plentyn am eu cymysgu gyda'i gilydd i wneud cawl.



© 2022 truewaykids.com

# Cawl llysiau hawdd



Mae cynnwys plant mewn coginio yn ffordd wych i'w annog i fwyta bwydydd gwahanol. Wrth i chi baratoi'r cawl hawdd-i'w-wneud yma siaradwch am stori Esau a Jacob.

## Cynhwysion

200g o lysiau cymysg fel nionyn, seleri a moron

300g o datws

1 llwy fwrdd o olew

700ml isgell llysiau

## Beth i'w wneud:

1. Biliwch a chiwbiwch y llysiau. Helpwch eich plentyn i dorri'r llysiau.
2. Ffriwch y llysiau mewn ychydig o olew am rhai munudau nes eu bod yn dechrau dod yn feddal.
3. Gwnewch yr isgell.
4. Ychwanegwch yr isgell i'r llysiau a'u mudferwi am 10 – 15 munud.
5. Unwaith bod y llysiau yn frau, blendiwch os ydych eisiau.

© 2022 truewaykids.com

Torrwch allan y cardiau isod a'u defnyddio i chwarae Cydweddu'r Parau. Y syniad yw adeiladu ar y ddealltwriaeth bod Esau a Jacob yn efeilliaid.



© 2022 truewaykids.com

# Pa ddau sydd yr un fath?












© 2022 truewaykids.com

Defnyddiodd Jacob dric i dwyllo ei dad, Isaac.
Gallwch dynnu lluniau sy'n dieithrio'r wynebau?



© 2022 truewaykids.com

Lliwiwch y cawl yma.
Pa gynhwysion gallwch ychwanegu?




© 2022 truewaykids.com

# Mwgwd Barf

Gwnaeth Jacob barf ffug i dwyllo ei dad.Beth fyddech chi yn edrych fel gyda barf? Ffeindiwch allan gyda'r grefft hawdd i'w wneud yma.

## Pethau byddwch angen:


- Plât papur
- Siswrn
- Glud
- Papur lliw
- Dafedd, cortyn neu elastig



## Beth i'w wneud:




Torrwch blât papur yn ei hanner




Torrwch allan hanner cylch bach i'r trwyn




Torrwch stribedi bach o bapur (tua 2cm x 5cm)



Gan ddechrau yn y gwaelod gludwch y papur ar y plât. Gludwch yr hanner uchaf o'r stribed yn unig.




Gludwch ar y papur nes ei fod yn llawn.



Torrwch ychydig o gortyn. Gwnewch dau dwll bach ar y plât a chlymwch i'r maint cywir.

https://youtu.be/023XvDDa8eg


© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com

# Amser addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Jacob's Ladder

https://youtu.be/30QjuzAH2Ys

## When I Look

https://youtu.be/4iW9MN7vMpQ

## Do Not Give Up

https://youtu.be/EPqPcQjHDwg


# Gweddi

Diolchwch i Dduw am edrych ar eich hol bob amser.
Diolchwch i Dduw am faddau i ni.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i faddau i bobl eraill ac i ddelio gydag eraill fel yr hoffech iddynt ddelio gyda chi.

## Wythnos nesaf:

# Joseff




Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2022 truewaykids.com